OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 Rhif 3450 (Cy. 48)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *15 Rhagfyr 1999* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 126(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) ac adran 5(1), a pharagraff 29(1) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**2**) a phob pŵer arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), gan ei fod yn barnu ei bod yn briodol gwneud y Gorchymyn hwn(**4**) er lles y gwasanaeth iechyd, ac ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan baragraff 29(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf olaf(**5**):

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

### Diddymu Ymddiriedolaethau NHS

**2.**—(1) Diddymir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymunedol Caerdydd a'r Cylch.

(2) Diddymir drwy hyn y Gorchmynion a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1977 p.49; diwygiwyd adran 126(3) gan adran 65(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.29) ("Deddf 1990").
(**2**) 1990 p.19; diwygiwyd adran 5(1) gan adran 2(1) o Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.27) a pharagraff 69(a) o Atodlen 1 iddi. Diwygir adran 5(1) ymhellach, mewn perthynas â Chymru, gan adran 13(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8).
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 5 o Ddeddf 1990 ac Atodlen 2 iddi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) Gweler paragraff 29(2)(b) o Atodlen 2 i Ddeddf 1990.
(**5**) Gweler O.S. 1996/653 y bu diwygiadau iddo nad ydynt yn effeithio ar baragraff 29(3).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.(**6**)

*Dafydd Elis Thomas*
Y Llywydd

15 Rhagfyr 1999

(**6**) 1998 c. 38

ATODLEN ERTHYGL 2(2)

**ORCHMYNION A DDIDDYMIR**

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche (Sefydlu) 1999 (O.S. 1999/1119)

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymunedol Caerdydd a'r Cylch (Sefydlu) 1999 (O.S. 1999/1118)

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer diddymu Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche ac Ymddiriedolaeth NHS Cymunedol Caerdydd a'r Cylch ac ar gyfer diddymu'u gorchmynion sefydlu priodol.